**Memorandwm Esboniadol ar gyfer** Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2025

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Etholiadau ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.14.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2025.

**Jayne Bryant AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**

**15 Rhagfyr 2025**

**RHAN 1**

**Disgrifiad**

1. Mae Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2025 (‘y Cod’) yn rhoi arweiniad ynglŷn â'r hyn sy'n dod o fewn cwmpas paragraffau 1 a 2 o Ran 1 o Atodlen 8 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (‘PPERA 2000’) neu'r hyn nad yw'n dod o fewn cwmpas y paragraffau hynny.

2. Mae'r paragraffau hynny'n berthnasol i'r diffiniad o wariant ymgyrch (‘campaign expenditure’) ac yn berthnasol yn benodol, felly, i ba dreuliau y mae'n ofynnol i blaid wleidyddol adrodd arnynt i'r Comisiwn Etholiadol. Mae paragraff 1 yn rhestru'r treuliau sy'n gymwys pan ysgwyddir hwy at ddibenion etholiad. Mae paragraff 2 yn rhestru'r eithriadau.

**Materion o ddiddordeb arbennig i’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**

3. Mae'r fersiwn hon o'r Cod yn cynnwys diwygiadau a wnaed gan y Comisiwn Etholiadol i ymdrin â materion a nodwyd yn y fersiwn o'r Cod a osodwyd ar 13 Hydref 2025[1] ac a dynnwyd yn ôl wedyn.

**Y cefndir deddfwriaethol**

4. Mae gan y Comisiwn Etholiadol bŵer o dan baragraff 3 o Atodlen 8 i PPERA 2000 i lunio cod ymarfer sy'n rhoi arweiniad ynglŷn â'r mathau o dreuliau sy'n dod o fewn Rhan 1 o'r Atodlen honno neu nad ydynt yn dod o fewn y Rhan honno.

5. Lluniwyd y Cod drafft gan y Comisiwn Etholiadol ac fe'i cyflwynwyd i ddechrau i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo ym mis Hydref. Cymeradwyodd Gweinidogion Cymru y Cod drafft gydag addasiadau, ac, ar yr un pryd â'r Cod, gwnaethant osod gerbron y Senedd ddatganiad o'r rhesymau dros wneud yr addasiadau hynny. Tynnwyd y fersiwn hon yn ôl yn ddiweddarach, ar ôl i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ei hystyried.

6. Gosodir y Cod drafft diwygiedig hwn gerbron y Senedd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai o dan baragraff 3 o Atodlen 8 i PPERA 2000. Mae'r Cod yn ymgorffori diwygiadau ac mae wedi bod yn destun gwiriadau cyfwerthedd ychwanegol. Mae Gweinidogion Cymru wedi cymeradwyo'r Cod diwygiedig heb ei addasu, felly nid oes angen Datganiad o Resymau.

7. Bydd y Cod yn dilyn y weithdrefn negyddol ddrafft. Oni bai bod y Senedd yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r drafft o fewn 40 diwrnod i'w osod, bydd

[1] SL(6)656 - Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2025 - TYNNWYD YN ÔL

y Cod yn cael ei ddyroddi gan Weinidogion Cymru, yn cael ei ddwyn i rym gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn, ac yn cael ei gyhoeddi gan y Comisiwn Etholiadol o dan baragraff 3 o Atodlen 8 i PPERA 2000.

8. Trosglwyddwyd swyddogaethau perthnasol yr Ysgrifennydd Gwladol ym mharagraff 3 o Atodlen 8 i PPERA 2000 i Weinidogion Cymru yn rhinwedd Erthygl 45 o Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018.

**Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

9. Os oes cyfnod rheoleiddiedig cyfunol yn weithredol o dan Ran 3 o Atodlen 9 i PPERA 2000, mae rheolau etholiadau'r DU yn gymwys i etholiadau penodol sy'n digwydd yn ystod y cyfnod hwnnw. Pan fo hynny'n gymwys i etholiad i'r Senedd, nid yw'r Cod yn gymwys.

10. Mae'r cyfnod rheoleiddiedig ar gyfer etholiad y Senedd yn 2026 yn dechrau ar 7 Ionawr 2026, ac yn dod i ben ar ddiwrnod y pôl, sef 7 Mai 2026.

11. Mae'r Cod yn rhoi arweiniad ynglŷn â'r hyn sy'n dod o fewn cwmpas paragraffau 1 a 2 o Ran 1 o Atodlen 8 i PPERA 2000 neu'r hyn nad yw'n dod o fewn cwmpas y paragraffau hynny.

12. Bydd y Cod yn gymwys i bob gwariant ymgyrch (yn ddarostyngedig i'r eithriadau perthnasol) gan bleidiau gwleidyddol cofrestredig sy'n sefyll ymgeiswyr ar restr pleidiau mewn etholiad i'r Senedd. Bydd unrhyw wariant sy'n gysylltiedig â hyrwyddo un ymgeisydd neu bob ymgeisydd sydd ar y rhestr honno, neu â hyrwyddo'r blaid ei hun, yn cael ei gwmpasu gan y Cod.

13. Rhaid i bleidiau gwleidyddol fod wedi'u cofrestru â'r Comisiwn Etholiadol i sefyll ymgeiswyr gan ddefnyddio marciau adnabod y blaid mewn etholiadau perthnasol.

14. Mae adran 72(2) o PPERA 2000 yn diffinio 'gwariant ymgyrch' mewn perthynas â phlaid gofrestredig fel '*expenses incurred by or on behalf of the party which are expenses falling within Part I of Schedule 8 and so incurred for election purposes.'*

15. Bydd hyn yn gymwys i bob gwariant sy'n gysylltiedig â hyrwyddo unrhyw ymgeisydd sy'n sefyll ar restr plaid ar gyfer plaid gofrestredig, neu'r blaid ei hun. Mae Rhan 1 o Atodlen 8 i PPERA 2000 yn amlinellu'r treuliau sy'n gymwys pan ysgwyddir hwy at ddibenion etholiad. Mae paragraff 1 o Atodlen 8 yn rhestru materion sy'n gymwys. Mae paragraff 2 yn rhestru'r eithriadau, gan gynnwys gwaharddiad cyffredinol ar gyfer treuliau rhesymol a ysgwyddir y gellir eu priodoli'n rhesymol i ddiogelu personau neu eiddo.

16. Mae paragraff 2 o Atodlen 8 i PPERA 2000 yn nodi rhestr o faterion sydd wedi'u heithrio rhag bod yn wariant ymgyrch o fewn ystyr adran 72 o PPERA 2000.

17. Mae Atodlen 9 i PPERA 2000 yn nodi'r terfynau gwariant.

18. O dan adran 80 ac 82 o PPERA 2000, mae'n ofynnol i bleidiau gwleidyddol gyflwyno ffurflen i'r Comisiwn Etholiadol ar ôl etholiad. Bydd y dyddiad cau ar gyfer ei chyflwyno yn dibynnu ar y swm y mae'r blaid honno wedi'i wario.

19. Trysorydd y blaid sy'n gyfrifol am ysgwyddo gwariant a chwblhau'r ffurflen. Pan fo gan y blaid Swyddog Ymgyrchu a benodwyd o dan adran 25 o PPERA, yr unigolyn hwnnw sy'n gyfrifol am hyn.

20. Rhaid i drysorydd y blaid lofnodi datganiad bod y ffurflen yn gywir, hyd eithaf ei wybodaeth a'i gred. Mae'n drosedd gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n ddi-hid.

21. Pan na fo swyddog plaid yn dilyn y Cod, mae trysorydd y blaid, neu swyddog perthnasol arall, yn debygol o fod yn torri'r gofynion statudol mewn perthynas â gwariant ymgyrch, er enghraifft y gofyniad statudol i gyflwyno ffurflen gyflawn a chywir. Gallai achosion o dorri'r Cod hwn arwain hefyd at gasgliad bod trysorydd plaid wedi gwneud datganiad ffug am y ffurflen yn fwriadol neu'n ddi-hid. Gallai cyflawni'r troseddau hyn arwain at erlyniad.

22. Mae adran 79(3) o PPERA yn darparu ei bod yn amddiffyniad i unrhyw berson neu blaid gofrestredig sydd wedi'u cyhuddo o'r drosedd o fynd y tu hwnt i derfyn gwariant ymgyrch (o dan adran 79(2) o PPERA) ddangos eu bod wedi cydymffurfio â'r Cod wrth bennu'r eitemau a'r symiau o ran gwariant ymgyrch i'w cyflwyno yn y ffurflen gwariant ymgyrch berthnasol o dan adran 80 o PPERA, ac na fyddent wedi mynd y tu hwnt i'r terfyn hwnnw ar sail yr eitemau a'r symiau a nodwyd yn y ffurflen honno.

23. Mae'r Cod yn gymwys i etholiadau i'r Senedd.

**Ymgynghori**

24. Lluniwyd y Cod gan y Comisiwn Etholiadol ar ôl ymgynghori â phersonau a chyrff sydd â buddiant, gan gynnwys cynrychiolwyr pleidiau gwleidyddol, Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Senedd. [Ymgynghoriad ar y Cod Ymarfer ar gyfer pleidiau gwleidyddol yn etholiadau'r Senedd | Y Comisiwn Etholiadol]

25. Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r Cod o ganlyniad i'r ymgynghoriad.

26. Gosododd Llywodraeth Cymru y Cod gerbron y Senedd, ar ran y Comisiwn Etholiadol. Ar ôl i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ystyried y Cod, fe'i tynnwyd yn ôl gan Lywodraeth Cymru. Yna, gwnaeth y Comisiwn Etholiadol nifer o fân newidiadau technegol a chyflwyniadol ymdrin â phwyntiau adrodd y Pwyllgor. Cefnogodd Llywodraeth Cymru y Comisiwn Etholiadol i wneud hyn a chomisiynodd wiriadau cyfwerthedd allanol i ymdrin â phwyntiau a oedd yn ymwneud â chyfwerthedd y fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r Cod. Nid oedd y newidiadau hyn yn effeithio ar ddiben nac effaith arfaethedig y Cod.

**Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

27. Caiff is-ddeddfwriaeth Gymreig berthnasol y mae rhaid cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar ei chyfer ei diffinio yn adran 76(2)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion Cymru, y Prif Weinidog neu'r Cwnsler Cyffredinol ac y mae'n ofynnol iddi gael ei gosod gerbron y Senedd.

28. Lluniwyd y Cod gan y Comisiwn Etholiadol o dan baragraff 3 o Atodlen 8 i PPERA 2000 ac nid yw wedi'i wneud gan Weinidogion Cymru, y Prif Weinidog na'r Cwnsler Cyffredinol. Yn hynny o beth, nid yw'r Cod yn bodloni meini prawf adran 76 ac felly nid oes angen Asesiad Effaith Rheoleiddiol.